

# Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>	<b>Anghenion y plentyn: Y pum llwybr datblygu</b>	<b>24</b>
<b>Y cefndir ar gyfer dysgu</b>	<b>7</b>	Deall y llwybrau datblygu	26
<b>Oedolion sy'n galluogi dysgu</b>	<b>8</b>	Y llwybrau datblygu	28
<b>Profiadau sy'n ennyn diddordeb</b>	<b>10</b>	<b>Ymarfer sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn</b>	<b>37</b>
<b>Amgylcheddau effeithiol</b>	<b>13</b>	Dod i adnabod y plentyn yn ein lleoliad	37
<b>Addysgeg</b>	<b>15</b>	Arsylwi plant	38
Chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae	15	Sgemâu	39
Bod y tu allan	16	Asesu plant	43
Dysgu dilys a phwrpasol	17	<b>Cynhwysiant</b>	<b>45</b>
Llythrennedd corfforol	18	Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod	46
<b>Sgiliau trawsgwricwlaidd</b>	<b>20</b>	<b>Cyfnodau pontio</b>	<b>48</b>
Llythrennedd	20	<b>Arweinyddiaeth</b>	<b>51</b>
Rhifedd	22	<b>Geirfa</b>	<b>53</b>
Cymhwysedd digidol	23		

# Cyflwyniad

Datblygwyd y cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir drwy waith cyd-awduro gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr. Caiff ei fynegi o safbwynt yr ymarferydd, gan fanteisio ar arbenigedd o bob rhan o'n sector nas cynhelir, a safbwyntiau arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar. Ei nod yw meithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn ymhlith ymarferwyr a phlant, gan ddathlu diwylliant amrywiol Cymru fodern a helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o **gynefin**. Fe'i datblygwyd i gefnogi ein gwaith gyda phlant ar ddechrau'r continwwm dysgu 3 i 16 oed, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cychwyn gorau posibl ar y daith honno.

Rydyn ni'n gwybod bod addysg gynnar o safon uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Uchelgais y cwricwlwm hwn yw ennyn ymdeimlad cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant a fydd, os caiff ei feithrin, yn para am oes ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob un o'n plant i'w helpu i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae'n ymdrin â 'sut' a 'pham' y caiff y cwricwlwm ei ddylunio i gefnogi plant i ddatblygu:



yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:	yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:	yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:	yn unigolion iach, hyderus sydd:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau</li> <li>• datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau</li> <li>• ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau</li> <li>• gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg</li> <li>• gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdany'n nhw</li> <li>• gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau</li> <li>• deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol</li> <li>• defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi</li> <li>• ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch</li> <li>• meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau</li> <li>• adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arny'n nhw</li> <li>• mentro'n bwylllog</li> <li>• arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol</li> <li>• mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau</li> <li>• rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn</li> <li>• trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd</li> <li>• deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd</li> <li>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu</li> <li>• wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol</li> <li>• parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol</li> <li>• dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol</li> <li>• yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi</li> <li>• yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd</li> <li>• yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach</li> <li>• yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol</li> <li>• yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg</li> <li>• â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau</li> <li>• yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd</li> <li>• yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn</li> <li>• â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw</li> </ul>
ac sy'n <b>barod i ddysgu gydol eu bywydau.</b>	ac sy'n <b>barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.</b>	ac sy'n <b>barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.</b>	ac sy'n <b>barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.</b>



Mae'r cwricwlwm hwn yn cydnabod bod pob plentyn yn ein lleoliad yn unigryw ac y bydd yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fywyd. Mae'n cefnogi datblygiad holistaidd drwy sicrhau bod anghenion datblygiadol ein plant yn rhan flaenllaw o'n hymarfer addysgegol.

Mae'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi bod y Gymraeg yn rhan o ddiwylliant unigryw Cymru, ac yn iaith y dylid ei haddysgu ym mhob lleoliad yng Nghymru. Mae hefyd yn cydnabod bod gan ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir y disgrisiwn i benderfynu na ddylai Saesneg fod yn rhan o'i gwricwlwm er mwyn galluogi plant i ddod yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae cysylltiad agos rhwng y cwricwlwm ac egwyddorion datblygiad plant, yn ogystal â phedwar diben y cwricwlwm a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Mae'n darparu ar gyfer dysgu eang a dwfn mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Dylai cyflwyno'r cwricwlwm hwn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd drwy'r disgrifiadau dysgu ar Gam cynnydd 1.

Dylen ni ddefnyddio'r cwricwlwm hwn, ynghyd â'n gwybodaeth a'n profiad, i adlewyrchu, anghenion unigol y plant yn ein lleoliad ac ymateb iddyn nhw. Byddwn ni'n gweithio gyda'r rhwydweithiau proffesiynol perthnasol, ac yn manteisio ar Rwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm, i gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus. Dylen ni chwilio am gyfleoedd i rannu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd â'n partneriaid yn y sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir.

Dylen ni weithio gyda'n holl bartneriaid perthnasol i ddefnyddio'r cwricwlwm hwn mewn ffordd sy'n cefnogi gwaith cynllunio yn ein lleoliad. Mae cynllunio effeithiol yn ein galluogi i wneud y gorau o amgylchedd ein lleoliad a'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu amgylcheddau dysgu priodol sy'n ymateb i ddiddordebau plant ac yn ennyn eu diddordeb ymhellach yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd i'n helpu i gynllunio, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ac sy'n bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru, i bob plentyn.





## Y cefndir ar gyfer dysgu

I rai plant, yr adeg pan fyddan nhw'n dod i'n lleoliad i ddechrau ar eu taith addysg fydd eu profiad cyntaf o fod i ffwrdd o'u cartref. I eraill, byddan nhw eisoes yn gyfarwydd â phob agwedd ar fywyd mewn lleoliad. Ein cyfrifoldeb ni yw cydnabod y profiadau sydd gan bob plentyn pan fydd yn dechrau ar ei daith addysg gynnar, a gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a'u rhieni a'u gofalwyr i'w cefnogi wrth iddyn nhw ddechrau'r bennod newydd a chyffrous hon o'u datblygiad. Drwy greu lle sy'n hyrwyddo'r arfer o wrando ar lais y plentyn, gallwn ni ddechrau cydnabod cefndir ac anghenion unigryw pob plentyn ac ymateb iddyn nhw, a gall plant ddechrau deall eu hawliau.

Man cychwyn yr egwyddorion allweddol ar gyfer dysgu holistaidd ac ystyrion i bob plentyn yw ymarferwyr medrus, sylwgar a brwdfrydig, sy'n cynnig profiadau dilys a diddorol mewn amgylcheddau effeithiol a chyffrous. Ein rôl yw defnyddio ein harsylwadau i gynllunio profiadau ac amgylcheddau sy'n ystyrion ac yn berthnasol i ddiddordebau plant. Mae'r cwricwlwm hwn yn sicrhau y caiff elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru eu hymgorffori mewn fframwaith addysgegol priodol sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn sy'n datblygu ar hyd pum llwybr datblygu – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles.

# Oedolion sy'n galluogi dysgu

Rydyn ni'n cydnabod bod ein rôl yn hanfodol i gynnydd pob plentyn ac yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod dysgu cynnar hwn. Dylen ni osod y disgwyliad ar gyfer dysgu drwy greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol ac sy'n helpu plant i ddechrau mynegi a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Dylen ni fodelu agwedd lawen at ddysgu, ac annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant, gan wneud y defnydd gorau o'r **cyfleoedd dysgu digymell** sy'n digwydd yn naturiol wrth inni arsylwi'r plant a chymryd rhan yn eu chwarae.

Mae cyfrifoldeb arnon ni i wneud cysylltiadau cryf â chartref a chymuned y plentyn, drwy adeiladu ar brofiadau'r gorffennol a'r presennol, er mwyn atgyfnerthu ei ymdeimlad o berthyn.

Gallwn ni gael effaith gadarnhaol ar les plant drwy fod yn gyson yn ein gofal a bod yn batrwm o dosturi a charedigrwydd. Dylen ni ddangos parch at blant drwy gefnogi eu penderfyniadau a'u dewisiadau. Dylen ni helpu plant i ymdopi ag ansicrwydd a newid mewn ffordd sensitif, gan eu paratoi i reoli cyfnodau pontio a newidiadau i arferion dyddiol. Dylen ni bob amser geisio gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu yn yr arferion dyddiol hyn.



Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol er mwyn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan adeiladau ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol plant, yn ogystal â'u **diddordebau arbennig** presennol. Dylen ni fireinio'r gwaith cynllunio ac ansawdd y ddarpariaeth, gan wneud addasiadau rheolaidd i gwrdd ag anghenion pob plentyn.

Dylai fod gennyn ni wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ym maes datblygiad plant, a dylen ni **gymhwyso** hyn yn llwyddiannus at ein gwaith bob dydd. Dylen ni arsylwi'n ofalus er mwyn dilyn diddordebau plentyn, gan gynllunio profiadau dysgu ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ein harsylwadau. Dylen ni nodi patrymau ymddygiad ailadroddus wrth i blant ddechrau archwilio'r byd o'u cwmpas. Dylen ni ddeall bod plant bach yn elwa ar gyfleoedd i ailadrodd ac ymarfer gweithredoedd mewn llawer o gyd-destunau gwahanol er mwyn meithrin eu sgiliau meddwl. Dylen ni helpu plant i ddatblygu **gwydnwch**, annibyniaeth a hyder drwy eu hannog i fentro'n ofalus a herio eu hunain.





## Profiadau sy'n ennyn diddordeb

Dylai'r profiadau rydyn ni'n eu cynnig yn y blynyddoedd cynnar fod yn ymarferol, yn bwrpasol ac yn ystyrion i'r plentyn. Dylen nhw annog plant i fod yn annibynnol, gan gynnig risg, her a chyfleoedd i brofi llwyddiant ar hyd y daith ddysgu. Dylen nhw fod yn seiliedig ar gyd-destunau dilys bywyd go iawn, er mwyn annog plant i gymryd rhan yn frwdfrydig a dysgu'n weithredol am gyfnodau hir, di-dor.

Gall profiadau gynnwys dewisiadau'r plant eu hunain neu ddatblygu o ddiddordebau lleol neu gyfredol. Dylen nhw gefnogi datblygiad holistaidd plant, gan helpu plant i wneud cysylltiadau ar draws eu profiadau dysgu. Dylai fod digonedd o gyfleoedd yn ein lleoliadau i blant ddychwelyd at brofiadau i ailystyried ac atgyfnerthu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu.

Wrth iddyn nhw ddechrau priodoli ystyr i'w marciau, dylai plant gael amrywiaeth o gyfleoedd i arbrofi ag amrywiaeth o offer a defnyddiau i wneud marciau. Mae'r profiadau hyn yn helpu plant bach i sylwi ar, a datblygu dealltwriaeth o, **gynrychioli drwy symbolau**, gan ddefnyddio gwrthrychau, lluniau a symbolau. Maen nhw'n gymorth i blant bach ddeall bod yna ystyr i farciau, arwyddion a symbolau.

Mae angen i blant gael profiadau ymarferol sy'n eu hannog i ddefnyddio geirfa fathemategol syml wrth archwilio nifer, rhif, siâp a phatrwm. Bydd profiadau effeithiol yn cefnogi **datblygiad gwybyddol** plant drwy gynnig cyfleoedd i gymharu, didoli a dosbarthu pethau byw a phethau nad ydyn nhw'n fyw. Dylai plant gael cyfleoedd i archwilio ac arbrofi â thechnoleg ddigidol at amrywiaeth o ddibenion.



Dylai pob plentyn gael profiadau sy'n hyrwyddo mwynhad mewn gweithgarwch corfforol. Mae angen i blant gael amrywiaeth eang o brofiadau corfforol, y tu mewn a'r tu allan, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau. Dylen nhw gael profiadau sy'n eu galluogi i ddefnyddio amrywiaeth eang o offer a chyfarpar â rheolaeth gynyddol. Bydd y profiadau hyn yn helpu plant i feithrin ymwybyddiaeth o'u cyrff, o ran eu cydsymud, eu cryfder craidd a'u cydbwysedd, a'u sgiliau motor bras a manwl. Byddan nhw'n helpu plant i asesu a rheoli risg, gan eu helpu i feddwl, cynllunio a gwneud penderfyniadau am eu symudiadau a'u gweithredoedd.

Mae profiadau o safon uchel yn hanfodol er mwyn helpu plant i feithrin sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae angen i blant gael profiadau sy'n eu helpu i feithrin gwydnwch emosiynol; dylid rhoi amser a chefnogaeth iddyn nhw fynegi ac adnabod eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill. Dylai profiadau gael eu cynllunio'n ofalus er mwyn meithrin sgiliau talu sylw a gwrando plant mewn amrywiaeth o gyd-destunau, y tu mewn a'r tu allan.

Dylai profiadau adlewyrchu a pharchu dwyieithrwydd ac amrywiaeth diwylliant ac ieithoedd yng Nghymru. Dylai plant gael profiad o amrywiaeth eang o straeon, cerddi, caneuon a rhigymau. Dylid cynnig profiad o ieithoedd a diwylliannau gwahanol mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon sy'n rhoi pwrpas i'r dysgu. Gall y profiadau hyn helpu plant i ddatblygu ac ehangu eu dealltwriaeth o gyfoeth ac amrywiaeth Cymru, yn y gorffennol a'r presennol.

Dylai profiadau amlsynhwyrdd gynnig cyfleoedd i blant ymateb i greadigrwydd pobl eraill a chael eu hysbrydoli ganddo, a'u helpu i gyfleu a mynegi eu hunain yn greadigol. Dylen nhw gynnig cyfleoedd i greu a dewis o blith amrywiaeth o ddefnyddiau sydd â phriodweddau gwahanol, ac annog plant i feithrin eu creadigrwydd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

Gall profiadau dilys bywyd go iawn helpu plant i ddysgu am eu hamgylcheddau a datblygu eu gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas a'r angen i ofalu amdano. Gallan nhw helpu plant i ddod i ddeall sut mae pethau'n gweithio, datrys problemau'n weithredol a dod yn ymwybodol o achos ac effaith. Drwy eu profiadau, dylai plant allu archwilio'r ffordd y maen nhw a gwrthrychau'n symud mewn gofod a chael eu cyflwyno i iaith sy'n disgrifio ac yn cyfarwyddo symudiad. Dylai'r profiadau hyn annog plant i sylwi ar yr amgylchedd o'u cwmpas a'u hardal leol, gan gynnwys rhyfeddodau naturiol, meddwl amdany'n nhw a gwneud sylwadau arny'n nhw.



# Amgylcheddau effeithiol

Dylai'r amgylchedd y byddwn ni'n ei greu yn ein lleoliad, y tu mewn a'r tu allan, fod wrth wraidd profiadau dilys bywyd go iawn y plant. Oherwydd hyn, dylen ni fonitro ac adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd yn barhaus a'i addasu yn unol â hynny. Yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae archwilio'r amgylchedd yn ffactor allweddol sy'n ysgogi datblygiad. Drwy archwilio eu hamgylchedd, bydd plant yn dechrau datblygu ymdeimlad o berthyn i'r byd o'u cwmpas, a'i werthfawrogi.

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y gofodau ffisegol yn ogystal â hinsawdd emosiynol ein lleoliad. Bydd yr amgylcheddau hyn yn darparu ar gyfer profiadau eang ac amrywiol sy'n galluogi plant i fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus, ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau'n ddiogel, ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Dylen ni gynnig cyfleoedd i blant gael rhyfeddu, cael eu hysbrydoli ac ennyn chwilfrydedd am y byd, gan gymhell plant i archwilio, datrys problemau, a meithrin eu creadigrwydd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol.

Dylen ni sicrhau bod yr amgylcheddau yn ein lleoliad yn groesawgar ac yn hyrwyddo ethos Cymraeg cryf. Dylen nhw ddathlu a gwerthfawrogi amrywiaeth, a bod yn gynhwysol. Dylen nhw fod yn **llawn cyfathrebu** a chanolbwyntio ar hybu sgiliau cyfathrebu cychwynnol, a'u datblygu ymhellach. Dylai'r amgylchedd sicrhau y gall plant gael gafael ar amrywiaeth eang o adnoddau dilys i'w helpu i ddatblygu geirfa a **datblygu cysyniadau**. Bydd amgylchedd trefnus sydd wedi'i gynllunio'n dda yn cefnogi'r broses o feithrin dealltwriaeth plant o gysyniadau mathemategol, er enghraifft drwy gyfleoedd gweledol ac ymarferol i gael profiad o rif, siâp a phatrwm mewn cyd-destunau dilys bywyd go iawn, y tu mewn a'r tu allan.





Dylai fod cyfleoedd i blant feithrin sgiliau motor bras a manwl, wrth iddyn nhw herio eu hunain yn gorfforol. Dylen nhw allu cael gafael ar amrywiaeth o adnoddau penagored yn yr amgylchedd, gan gynnwys cyfryngau digidol, er mwyn cyfoethogi'r dysgu mewn ffyrdd sy'n ddatblygiadol briodol. Bydd yr amgylchedd hefyd yn cefnogi meistrolaeth, drwy gynnig cyfleoedd cyson ac estynedig i ymarfer, ailadrodd a gwreiddio sgiliau a ddysgwyd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Dylai fod hyblygrwydd ac amrywiaeth yn yr amgylchedd, gan gynnig risg a her, a helpu plant i feithrin hyder, annibyniaeth a gwydnwch. Dylai'r amgylchedd fod yn ymatebol i amrywiaeth o emosiynau y gall plentyn bach eu profi, a dylai gynnig amser a manau tawelach wedi'u diogelu ar gyfer **hunanreoli**, meddwl a myfyrio, er mwyn meithrin lles plentyn.

# Addysgeg

Er mwyn gwireddu uchelgais y cwricwlwm hwn mae'n hanfodol cael **addysgeg** effeithiol sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn ac sy'n ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf. Er bod egwyddorion addysgeg effeithiol wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm, mae'n arbennig o bwysig ein bod yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ein lleoliad yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:

- chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae
- bod y tu allan
- dysgu dilys a phwrpasol
- llythrennedd corfforol.

## Chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae

Mae chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn. Mae gan blant angen cynhenid cryf i chwarae. Drwy chwarae a phrofiadau chwareus, mae plant yn dod o hyd i ffyrdd o archwilio amrywiaeth o emosiynau a dysgu am y byd y maen nhw'n byw ynddo gydag eraill.

I bob plentyn, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae chwarae yn rhywbeth y maen nhw'n ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif. Mae angen canolbwyntio a thalu sylw i fanylion wrth chwarae, ac mae'n gyfrwng i blant ddysgu drwy ddyfalbarhau a chydweithio. Nid yn unig y mae chwarae yn hollbwysig i'r ffordd y mae plant yn dod yn **hunanymwbybodol** ac yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol; mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, deallusol a chreadigol. Mae chwarae yn dylanwadu ar ffyrdd o feddwl ac ymagweddau at ddysgu ac yn cefnogi teimladau o hunan-werth a **hunaneffeithiolrwydd**, sy'n effeithio ar hyder ac annibyniaeth.





Dylai pob un ohonon ni werthfawrogi pwysigrwydd chwarae, fel diben ynddo'i hun ac fel rhywbeth y gallwn ni ei arsylwi'n ofalus gyda'r nod clir o gyfoethogi'r dysgu.

## Bod y tu allan

Mae bod y tu allan yn arbennig o bwysig i blant bach. Mae'n cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol, yn ogystal â lles. Gall bod y tu allan hefyd gefnogi lefelau uchel o hyder ac ymgysylltu. Mewn amgylchedd allanol, gall plant archwilio, ymarfer a gwella eu sgiliau.

Mae bod y tu allan yn cynnig cyfleoedd i blant gael rhyfeddu a chael eu hysbrydoli, ac mae'n galluogi plant i ymateb yn naturiol mewn gofodau agored a hamddenol sy'n eu symbylu. Mae bod y tu allan yn cynnig cyfleoedd cyfoethog sy'n cyffroi synhwyrâu plant drwy'r hyn y maen nhw'n ei glywed, ei gyffwrdd, ei weld a'i arogl, a hynny yng nghyd-destun dilys bywyd go iawn.

Gall plant sy'n llwyddo i ymgysylltu â'r byd naturiol feithrin empathi tuag at yr amgylchedd, a meithrin ymwybyddiaeth o'u heffaith bosibl ar y byd. Gallan nhw ddechrau archwilio'r cysyniad o gynladwyedd mewn ffordd ymarferol. Mae archwilio'r byd y tu allan yn cynnig cyfleoedd i blant feithrin ymdeimlad o'u lle o fewn yr hyn sy'n union o'u cwmpas, eu hardal, Cymru a'r byd ehangach.

Wrth fod y tu allan, mae'r ehangder yn cynnig lle i blant feithrin ymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain mewn gofod. Gall amgylcheddau allanol gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i blant wella eu cydbwysedd a'u cydsymud, datblygu **gweithrediad motor** ac archwilio eu potensial corfforol. Wrth archwilio'r amgylchedd y tu allan, gall plant feithrin eu gallu i asesu a phrofi risg, gan helpu i feithrin gwydnwch a hyder.

Mae amgylchedd allanol cyfoethog ac amrywiol yn cynnig cyfleoedd dilys i feithrin **sgiliau sy'n hanfodol o ran y pedwar diben**. Mae defnyddio adnoddau naturiol a phenagored yn helpu i ddatblygu dychymyg, creadigrwydd a chwilfrydedd.

## Dysgu dilys a phwrpasol

Rydyn ni'n gwybod bod plant yn dysgu'n dda pan fyddan nhw'n cymryd rhan weithredol mewn profiadau sy'n ennyn eu diddordeb, yn tanio eu dychymyg ac yn ysbrydoli eu chwilfrydedd. Dylai'r profiadau hyn annog plant i ymchwilio, archwilio, creu a bod yn gyfranogwyr gweithgar yn eu dysgu. Bydd profiadau perthnasol ac ystyrlon sy'n seiliedig ar gyd-destunau bywyd go iawn yn galluogi plant i wneud cysylltiadau, cymhwyso gwybodaeth ac atgyfnerthu sgiliau.

Gall profiadau bywyd go iawn alluogi plant i arwain drwy ofyn cwestiynau, canfod problemau, mentro a dod o hyd i atebion. Mae creu cyfleoedd i blant gymhwyso'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu at sefyllfaoedd bywyd go iawn yn eu helpu i ddeall diben yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu a gall wella eu lles, eu hunan-gred a'u gwydnwch. Mae'n annog plant i archwilio a bod yn greadigol a bydd yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.



## Llythrennedd corfforol

Mae angen i blant gael cyfleoedd i feithrin amrywiaeth eang o sgiliau symud sylfaenol, sy'n sail ar gyfer symud yn fedrus ac yn hyderus mewn bywyd pob dydd. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod sylfeini llythrennedd corfforol yn y blynyddoedd cynnar drwy fodlu agweddau cadarnhaol at symud a darparu amgylchedd sy'n cynnig y cyfle i blant archwilio, ymarfer a chyfuno amrywiaeth eang o symudiadau corfforol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Dylai hyn gynnwys creu amser, lle a chyfle i blant gael profiad o fathau gwahanol o chwarae, er enghraifft **chwarae sgarmes**, chwarae archwiliadol a chwarae mentrus, gan archwilio'r byd ar lefelau gwahanol, a chael profiad o amrywiaeth o ystumiau, symudiadau a chyd-destunau sy'n eu cymell i symud.



# Addysgeg: Cwestiynau myfyriol



## Ar gyfer ymarferwyr:

- Sut ydw i'n sicrhau bod plant yn dysgu ac yn meithrin sgiliau drwy chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae?
- Sut ydw i'n sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys chwarae egniol, y tu mewn a'r tu allan?
- Sut ydw i'n sicrhau bod y cyfleoedd a'r profiadau dilys sydd ar gael yn fy lleoliad yn ddatblygiadol briodol i'r plant?
- I ba raddau rydyn ni'n helpu plant i ddathlu byw yng Nghymru mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw?

## Ar gyfer arweinwyr:

- I ba raddau rydw i'n helpu fy nhîm i fodelu agweddau cadarnhaol at chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae, dysgu dilys a phwrpasol, a symud corfforol y tu mewn a'r tu allan?

# Sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau gorfodol ym mhob rhan o'r cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn datblygu ac yn gwneud cynnydd yn y sgiliau hyn. Mae'r adran hon yn disgrifio'r sgiliau y dylai plant bach eu meithrin a'u meistroli fel rhan o'u taith ddysgu. Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylen ni sicrhau y caiff plant gyfleoedd i gymhwyso, meithrin ac ymestyn y sgiliau hyn mewn **cyd-destunau ystyrion**, gan ddefnyddio'r pum llwybr datblygu.

## Llythrennedd

Mae iaith a chyfathrebu yn allweddol i ddysgu. Dylai lleferydd, iaith a chyfathrebu gael eu datblygu'n holistaidd drwy brofiadau dilys bywyd go iawn a chyfleoedd chwarae. Mae gennyn ni rôl hollbwysig i ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer iaith, gan ddechrau drwy gefnogi sgiliau talu sylw, gwranddo a deall. Gallwn ni wneud hyn drwy sicrhau y caiff plant eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau ieithyddol cyfoethog i feithrin eu sgiliau gwranddo, siarad a chyfathrebu. Wrth feithrin sgiliau iaith a chyfathrebu, dylen ni sicrhau y rhoddir amser i blant brosesu'r hyn y byddan nhw'n ei glywed a'i weld, cyn ymateb, myfyrio ac ailystyried. Rhaid inni ddeall y bydd rhai plant yn cyfathrebu hefyd drwy ddulliau heblaw siarad.





Mae'r byd naturiol yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ddatblygu iaith drwy brofiadau chwaraus, fel deilen yn crensian neu sblash mewn pwll dŵr. Mae defnyddio'r tu allan yn hybu lles, hunan-barch a'r hyder i gyfathrebu. Gall y rhyddid o fod tu allan leihau swildod a chaniatáu i blant fynegi eu hunain.

Dylen ni helpu ac annog plant i ddatblygu hoffter o lyfrau a straeon drwy gyd-ddarllen gydag unigolion a grwpiau bach. Dylid sicrhau bod llyfrau a deunyddiau darllen dilys, gan gynnwys llyfrau a grëwyd gan y plant eu hunain, ar gael ym mhob rhan o'r amgylchedd. Dylen ni werthfawrogi'r straeon y bydd plant yn eu hadrodd drwy chwarae.

Rydyn ni'n gwybod bod sgiliau motor bras, fel dringo, troelli a thaflu, yn hanfodol i feithrin sgiliau motor manwl a gwneud marciau. Gallwn ni gefnogi'r datblygiad hwn drwy sicrhau y caiff plant gyfleoedd i feithrin sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud marciau, fel trin a thrafod clai a thoes, a thrwy chwarae blêr a gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu gafael.

Dylen ni gynnig cyfleoedd i wneud marciau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at amrywiaeth o ddibenion, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a chyfryngau. Dylai pob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol ac y caiff llawer o ieithoedd eraill eu siarad yn ein cymunedau. Mae cyfrifoldeb arnon ni i sicrhau y bydd plant yn meithrin agweddau cadarnhaol at ieithoedd gwahanol a'r bobl sy'n eu siarad. Dylai'r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r gwaith o feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

## Rhifedd

Mae plant yn naturiol chwilfrydig ac yn meithrin dealltwriaeth o iaith, cysyniadau a sgiliau mathemategol drwy chwarae amlsynhwyrdd a phrofiadau dilys bywyd go iawn. Dylai plant gael cyfleoedd dyddiol i chwarae tu allan er mwyn eu hannog i archwilio cysyniadau ymhellach mewn bywyd pob dydd. Yn y byd naturiol, mae cyfoeth o gyfleoedd i ddatblygu'n fathemategol. Mae adnoddau naturiol, penagored yn cynnig posibiliadau di-ben-draw i archwilio mathemateg.

Gyda'n cymorth ni, a thrwy ddarparu amgylchedd sy'n ennyn diddordeb, gall plant ddarganfod a deall bod mathemateg ym mhobman. Bydd modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol gydol y dydd yn helpu plant i feithrin eu **cymhwysedd strategol**.

Wrth feithrin dealltwriaeth fathemategol, mae'n hollbwysig ein bod yn rhoi amser i blant arsylwi, archwilio, ymchwilio ac arbrofi er mwyn gweithio drwy'r broses o ddatrys problemau. Dylid gwerthfawrogi pwysigrwydd y broses hon o ddatrys problemau yn ddiben ynddo'i hun, ac mae'n bosibl na fydd yn arwain at ganlyniad nac ateb bob tro.





## Cymhwysedd digidol

Cymhwysedd digidol yw set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n ei gwneud yn bosibl i dechnolegau a systemau gael eu defnyddio mewn ffordd hyderus, creadigol a beirniadol. Mae cymhwysedd digidol yn hanfodol i blant er mwyn iddyn nhw fod yn wybodus ac yn alluog a meddu ar y potensial i lwyddo o fewn y gymdeithas heddiw. Mae cymhwysedd digidol yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau digidol y gellir eu cymhwyso at amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i fyd y plant, ac ni ddylid dysu rhyngddo a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Yn y byd cynyddol ddigidol hwn, mae'n hanfodol bod plant yn cael cyfle i archwilio a meithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau digidol. Mae hyn yn golygu mwy na chreu tasgau sy'n cynnwys defnyddio dyfeisiau neu gyfryngau digidol; mae angen i blant gael eu trochi mewn profiadau dilys a phwrpasol sy'n ymgorffori sgiliau a chymhwyseddau digidol yn eu bywydau bob dydd. Gellir defnyddio dyfeisiau a chyfryngau digidol i gyfoethogi chwarae plant a dylai'r rhain fod ar gael iddyn nhw. Mae cyfryngau digidol yn mynd y tu hwnt i lechenni a gliniaduron ac maen nhw'n cynnwys tegau rhaglenadwy, camerâu, chwaraewyr cryno ddisgiau, cloriannau digidol, tiliau a mwy. Lle mae'n briodol, dylai meithrin cymhwysedd digidol gael ei integreiddio yn y pum llwybr datblygu fel ffordd o gyfoethogi'r dysgu drwy ychwanegu gwerth at weithgareddau, y tu mewn a'r tu allan.

# Anghenion y plentyn: Y pum llwybr datblygu

Mae'r cwricwlwm hwn yn cydnabod ac yn dathlu natur unigryw pob plentyn a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i'r profiad dysgu. Dylai'r cyfnod dysgu cynnar hwn fod yn ddi-frys, gan ganiatáu amser, lle a rhyddid i'r plentyn sy'n datblygu atgyfnerthu'r hyn y mae'n ei ddysgu drwy gyfleoedd i ddychwelyd at ei wybodaeth a'i sgiliau newydd, eu hailystyried a'u **mireinio**. Mae'r dull cylchol hwn yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd ar hyd y daith ddysgu.

Wrth wraidd y cwricwlwm hwn mae pum llwybr datblygu allweddol sy'n hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu. Mae'r llwybrau datblygu hyn yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ddibynnol ar ei gilydd, ac maen nhw yr un mor bwysig â'i gilydd o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac mae cysylltiad agos rhyngddynt nhw a'r egwyddorion allweddol datblygiad plant, yn ogystal â'r datganiadau cyffredin o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Maen nhw wedi eu datblygu er mwyn sicrhau y gellir helpu plant i wneud cynnydd ar eu cyflymder eu hunain ac yn yr **amgylchedd dysgu a ffefrir** ganddyn nhw.

Y pum llwybr datblygu yw:


- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles.



Mae datblygiad o fewn ac ar draws y pum llwybr datblygu yn dibynnu ar ansawdd ein rhyngweithio a'r profiadau a'r amgylcheddau dysgu y byddwn ni'n eu creu. Bydd dysgu ac addysgu mewn ffordd holistaidd yn sicrhau y caiff plant gyfleoedd i feithrin sgiliau o fewn ac ar draws y llwybrau datblygu. Dylen ni sicrhau ein bod yn rhoi digon o amser a chyfle i feistrolï sgiliau, gyda chyfnodau hir o chwarae di-dor lle y gall plant ymgolli yn yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu.

Mae'n arferol i blant wneud cynnydd cyflymach neu arafach ar hyd rhai llwybrau datblygu, yn dibynnu ar ansawdd y rhyngweithio, y profiadau a'u teithiau datblygu unigol cyn dod i'n lleoliad. Felly, ein cyfrifoldeb ni yw cynnig ymarfer sy'n ddatblygiadol briodol, o fewn **cydberthnasau meithringar**, sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn. Gallwn ni osod y sylfeini ar gyfer teimladau ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, drwy sicrhau bod profiadau dysgu yn berthnasol, yn ystyrlon ac yn ymateb i anghenion a diddordebau'r plant yn ein gofal.

Dylid defnyddio'r pum llwybr datblygu mewn ffordd holistaidd wrth gynllunio profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu mewn ffordd dilys a phwrpasol.



## Deall y llwybrau datblygu

Plant sydd wrth wraidd y cwricwlwm hwn ac, fel y cyfryw, caiff y pum llwybr datblygu eu mynegi o safbwynt y plentyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion, diddordebau a chwilfrydedd plant tair a phedair oed. Mae plant yn dysgu mynegi eu hunain; maen nhw'n dod yn fwy annibynnol ac yn fwy ymwybodol o'u gwerth i'r bobl o'u cwmpas. Mae'r llwybrau datblygu'n cynrychioli hawl plentyn i gael profiad o amgylchedd lle y caiff chwarae ei werthfawrogi ynddo'i hun ac fel rhan o ddysgu.

Mae pob un o'r llwybrau datblygu'n cynnwys:

- **sail resymegol** glir sy'n egluro **hanfod** yr hyn y mae angen i blant ei ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain ac mewn ffordd sy'n briodol iddyn nhw
- datganiadau sy'n dechrau gyda'r canlynol ac yn ymhelaethu arno:
  - 'Mae angen i mi ... '
  - 'Rwy'n dysgu sut i ... '
  - 'Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ... '

Mae'r datganiadau 'Mae angen i mi ... ' yn mynegi'r ffactorau biolegol a chymdeithasol na all, neu na ddylai, plant eu hanwybyddu. Mae'r datganiadau hyn yn cyfleu'r cyfleoedd sylfaenol sydd eu hangen ar blant i ffynnu. Ein cyfrifoldeb ni yw adnabod a deall y ffactorau hyn fel ein bod yn cynnig cyfleoedd chwarae pwrpasol i blant er mwyn iddyn nhw ddiwallu'r anghenion hyn. Maen nhw'n ddatganiadau cynhwysol sy'n berthnasol i blant o bob gallu. Dylid defnyddio'r datganiadau 'Mae angen i mi ... ' er mwyn helpu i gynllunio darpariaeth ac nid at ddibenion **asesu crynodol**.





Mae'r datganiadau 'Rwy'n dysgu sut i ...' yn dangos y sgiliau a'r ymagweddau y mae plant yn eu datblygu ar eu taith ddysgu. Drwy adnabod yr hyn y mae plant yn dysgu'i wneud, gallwn ni gynnig profiadau dysgu gwell iddyn nhw a all ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach, neu gyfleoedd i gymhwyso sgiliau newydd mewn cyd-destunau cyfarwydd. Rydyn ni'n gwybod bod cynnydd i blant unigol yn debygol o fod yn anwastad o fewn y llwybrau datblygu a rhyngddyn nhw, felly mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein harsylwadau i roi arweiniad, cymorth a her pan fo angen.

Mae'r datganiadau 'Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ...' yn disgrifio'r amodau delfrydol a all gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol y plentyn. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ba mor dda y byddwn ni'n ymateb i'r anghenion hyn sy'n datblygu, ac yn cynllunio ar eu cyfer.

Mae'r llwybrau datblygu'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r hyn y gallwn ni ei wneud i'w helpu i ddatblygu ac annog chwilfrydedd ac archwilio.

Caiff y rhyngweithio rhwng plant, oedolion, profiadau ac amgylcheddau ei fynegi drwy'r datganiadau ym mhob llwybr datblygu. Mae'r rhain wedi'u cydblethu'n annatod ac yn fwriadol â'i gilydd o fewn y pum llwybr datblygu fel bod cyfleoedd yn holistaidd ac yn galluogi plant i wireddu eu potensial.

## Y llwybrau datblygu

### Perthyn

Mae perthyn yn hanfodol i'n hymdeimlad o hapusrwydd a lles. Pan fyddan nhw'n ifanc, bydd plant yn dechrau meithrin ymdeimlad o'u lle a'u pwysigrwydd o fewn y grwpiau niferus y maen nhw'n perthyn iddyn nhw. Mae cydberthnasau cadarn a sicr yn hollbwysig i'r ymdeimlad hwn o berthyn.

Gall yr ymdeimlad hwn arwain at deimladau cadarnhaol o gysylltiad â'r cartref a'r lleoliad, a gall ymestyn i'r gymuned, i Gymru ac i'r byd ehangach. Gall lleoliadau sy'n parchu ac yn dathlu profiadau plant o'u cartrefi a'u cymuned yn y gorffennol a'r presennol, ac yn adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad, a rhoi gofal a chymorth emosiynol gwirioneddol er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad cadarn o berthyn.

Mae perthyn yn bwysig er mwyn llywio ymdeimlad plant o bwy ydyn nhw a phwy y gallan nhw fod ac, fel y cyfryw, dylai fod yn sail i ethos pob lleoliad yng Nghymru.

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• deimlo fel aelod gwerthfawr o gymuned y lleoliad</li> <li>• chwarae (ar fy mhen fy hun, ochr yn ochr ag eraill neu gydag eraill)</li> <li>• gwneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a phethau</li> <li>• cael fy nghlywed a fy neall</li> <li>• gweld fy hun a phobl fel fi yn cael ein cynrychioli yn fy lleoliad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• adnabod pwy ydw i</li> <li>• sylweddoli fy mod yn bwysig i'r bobl o'm cwmpas</li> <li>• cymryd rhan ym mywyd y lleoliad</li> <li>• gofalu amdanaf fi fy hun</li> <li>• dilyn arferion cyfarwydd</li> <li>• deall a dilyn rhai rheolau a ffiniau</li> <li>• adnabod fy anghenion fy hun ac anghenion pobl eraill</li> <li>• sylweddoli bod rhai pethau yn anniogel</li> <li>• gofalu am bethau yn fy amgylchedd – pethau byw a phethau nad ydyn nhw'n fyw</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn rhoi gofal a pharch cyson i mi</li> <li>• yn darparu adnoddau cyfarwydd sy'n adlewyrchu fy niwylliannau a fy nghymunedau</li> <li>• yn fy ngweld i fel dysgwr galluog</li> <li>• yn modelu agwedd lawen a chwilfrydig at ddysgu</li> <li>• yn ymateb i fy niddordebau, yr hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi</li> <li>• yn cynllunio profiadau ar ôl arsylwi fy newisiadau a'r hyn sydd orau gen i wrth chwarae</li> <li>• yn blaenoriaethu fy anghenion wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arna i</li> <li>• yn fy ngalluogi i chwarae ar fy mhen fy hun a/neu gydag eraill</li> <li>• yn hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n gwerthfawrogi diwylliant amrywiol Cymru</li> </ul>

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sylweddoli fy mod yn perthyn i gymuned ehangach</li> <li>• adnabod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cynnig cyfleoedd priodol i brofi fy niwylliant fy hun a diwylliannau pobl eraill mewn cyd-destunau bywyd go iawn</li> <li>• â chysylltiadau cryf â fy nghartref a fy nghymuned leol</li> <li>• yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi cysylltiadau a chyfoethogi diddordebau</li> <li>• yn gwneud defnydd effeithiol o ddelweddau, sain, fideo a thechnoleg.</li> </ul>

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn rhan sylfaenol o ddatblygiad plant; mae'n hollbwysig ar gyfer ffurfio cydberthnasau ac yn hanfodol ar gyfer dysgu, chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Er mwyn dysgu'n effeithiol, mae angen i blant ddeall pobl eraill a gallu gwneud i bobl eraill eu deall nhw. Mae cyfathrebu'n ymwneud â meithrin sgiliau gwranddo, talu sylw a deall, ochr yn ochr â geirfa a sgiliau siarad.

Gall faint o siarad a'r math o siarad y bydd plant yn ei glywed ac yn rhyngweithio ag ef gael effaith sylweddol ar ddatblygiad eu sgiliau cyfathrebu. Mae plant yn caffael ac yn meithrin sgiliau ar gyflymder gwahanol, a gallwn ni gefnogi eu datblygiad iaith drwy fodelu sgiliau gwranddo a siarad gweithredol at ddibenion gwahanol. Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau. Wrth ddysgu sgiliau newydd, dylai plant gael cyfleoedd i'w defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, neu gydag oedolion, mewn grwpiau bach neu un i un. Mae cyfleoedd rheolaidd a chyson i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau yn helpu i ddatblygu geirfa a gramadeg. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd cynnar yn bwysig ar gyfer hunanfyneiant, meithrin cydberthnasau cymdeithasol cadarn a'r ffordd y bydd plentyn yn dysgu'n fwy cyffredinol. Mae gallu priodoli ystyr i farciau yn ymdrech greadigol sy'n galluogi plant i ddechrau ar y daith i gyfathrebu'n ysgrifenedig, boed hynny drwy dynnu lluniau, ysgrifennu neu wneud marciau mathemategol.

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy sgiliau cyfathrebu'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:
<ul style="list-style-type: none"><li>• gyfathrebu</li><li>• sylwi ar bethau yn fy amgylchedd</li><li>• datblygu cydberthnasau cymdeithasol</li><li>• cael fy nghlywed a chael fy neall</li><li>• cael amser i feddwl a phrosesu.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ddatblygu fy sgiliau gwranddo, talu sylw a deall wrth chwarae a rhyngweithio</li><li>• adnabod ciwiau geiriol a di-eiriau ac ymateb iddyn nhw</li><li>• mynegi fy anghenion, fy meddyliau, fy nheimladau, fy syniadau a fy marn</li><li>• talu sylw i bobl eraill</li><li>• cyflawni arferion cyfarwydd ac ymgymryd â rolau wrth chwarae</li><li>• rhannu fy straeon fy hun</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• yn cefnogi fy sgiliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau ac yn ymateb yn sensitif iddyn nhw</li><li>• yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i'm helpu i ddeall iaith</li><li>• yn modelu sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys cymryd rhan mewn <b>cyd-feddwl parhaus</b> a defnyddio cwestiynau penagored i'm helpu i feddwl</li><li>• yn defnyddio cwestiynau penagored, wedi'u cydbwysu â sylwadau, yn effeithiol i fy helpu i feddwl</li><li>• yn modelu i gefnogi a datblygu fy nghysyniad a fy ngeirfa ymhellach</li></ul>

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy sgiliau cyfathrebu'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ailadrodd straeon a dwyn digwyddiadau i gof gan ddefnyddio lluniau i fy helpu</li> <li>• ymuno mewn straeon a rhigymau cyfarwydd</li> <li>• sylwi ar symbolau yn fy amgylchedd a dechrau sylweddoli bod ystyr iddyn nhw</li> <li>• defnyddio adnoddau gwneud marciau â rheolaeth gynyddol</li> <li>• rhoi fy ystyr fy hun i fy marciau</li> <li>• defnyddio iaith mewn ffordd chwareus a llawn hwyl</li> <li>• defnyddio iaith yn bwrpasol</li> <li>• dewis mathau gwahanol o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys rhai digidol</li> <li>• sylwi ar batrymau gweledol, clywedol a ffisegol yn fy amgylchedd ac wrth chwarae, a'u harchwilio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ennyn fy niddordeb mewn straeon, caneuon a rhigymau o fy niwylliant fy hun ac o ddiwylliannau pobl eraill</li> <li>• yn datblygu fy hyder wrth gyfathrebu ag eraill</li> <li>• yn fy ngalluogi i ddarllen llyfrau lluniau er mwyn i mi ddatblygu fy ngeirfa a chysyniadau mathemategol fel rhif, siâp a phatrwm yn well</li> <li>• yn archwilio adnoddau digidol gyda fi</li> <li>• yn cynnig ac yn cynllunio cyfleoedd dilys i wneud marciau</li> <li>• yn creu amgylcheddau sy'n cynnig amrywiaeth eang o brofiadau amrywiol gan roi cyfleoedd i mi fynegi fy hun yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus</li> <li>• yn rhoi amser i mi siarad am brofiadau a digwyddiadau sy'n bwysig i mi, a myfyrio arnyn nhw</li> <li>• yn rhoi amser i mi brosesu ac ymateb</li> <li>• yn defnyddio llyfrau, pypedau, propiau a chyfryngau digidol mewn ffordd fedrus i ennyn fy niddordeb yn fy nysgu</li> <li>• yn cynnig cyfleoedd dilys a chyfarwydd ar gyfer chwarae rôl</li> <li>• yn cynnig cyfleoedd i mi gael hwyl gyda seiniau a gwahaniaethu rhwng seiniau</li> <li>• yn cynnig cyfleoedd un i un, grŵp bach a grŵp cyfan</li> <li>• yn cynnig cyfleoedd i gymryd tro.</li> </ul>

## Archwilio

Mae chwilfrydedd naturiol plant ynglŷn â'r byd o'u cwmpas yn gymhellant cryf i archwilio. Mae plant yn ddatrys-wyr problemau parhaus sy'n aml yn cael pleser mewn digwyddiadau pob dydd ac yn cael eu rhyfeddu ganddyn nhw. Maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain a gydag eraill. Maen nhw yn aml yn awyddus i rannu eu pleser mewn gwybodaeth neu sgiliau newydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae plant bach yn chwilio am wybodaeth a sgiliau sydd o fewn eu galluoedd presennol a'r tu hwnt iddyn nhw hefyd. Pan mae plant yn cael eu cefnogi a'u galluogi, gallan nhw ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ar bethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Wrth i'w sgiliau archwilio ddatblygu, maen nhw'n ymarfer sgiliau eraill ac yn profi **damcaniaethau sy'n dod i'r amlwg**, yn unigol a gydag eraill.

Mae dysgu'n golygu meithrin sgiliau, gwybodaeth a galluoedd yn raddol ac mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Gall amgylcheddau cynhwysol, y tu mewn a'r tu allan, sy'n rhoi amser a chyfle i chwarae, archwilio ac ymchwilio, gydag oedolion sy'n deall beth yw diddordebau'r plant, gefnogi ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu yn ogystal â meithrin gwybodaeth a sgiliau.

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy sgiliau archwilio'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:
<ul style="list-style-type: none"><li>• archwilio, ymchwilio a darganfod</li><li>• rhannu fy chwilfrydedd ag eraill</li><li>• gwneud cysylltiadau</li><li>• datblygu fy nychymyg mewn amrywiaeth o ffyrdd</li><li>• cymharu, didoli a dosbarthu</li><li>• creu, cyfathrebu a mynegi fy hun</li><li>• archwilio symudiad a chyfeiriad, a datblygu fy ymwybyddiaeth ofodol</li><li>• arbrofi ag achos ac effaith.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi</li><li>• datblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae pethau'n gweithio</li><li>• defnyddio fy nghamgymeriadau i wella fy nealltwriaeth, gyda chymorth</li><li>• rhannu fy mhrofiadau a'r hyn rwy'n ei feddwl</li><li>• cyfleu fy syniadau drwy wneud marciau neu ddefnyddio technoleg briodol</li><li>• archwilio priodweddau defnyddiau</li><li>• datblygu fy ngallu i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol drwy archwilio</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• yn cynnig cyfleoedd dilys bywyd go iawn i chwarae ac arbrofi ag amrywiaeth o ddefnyddiau, gweddau ac offer, y tu mewn a'r tu allan</li><li>• yn deall amrywiaeth diwylliant Cymru ac yn cynnig cyfleoedd i mi fod yn chwilfrydig am Gymru a diwylliant Cymru, ac archwilio agweddau arnyn nhw</li><li>• yn arsylwi ac yn sylwi ar fy niddordebau arbennig ac yn eu defnyddio i fy helpu i ddysgu'n fanylach</li><li>• yn fy helpu i ddatblygu dealltwriaeth drwy ryngweithio'n fedrus</li><li>• yn rhannu'r un pleser a brwdfrydedd â fi</li><li>• yn fy ngweld i fel dysgwr hyderus, galluog a chwilfrydig</li><li>• yn cefnogi, yn dathlu ac yn annog fy chwilfrydedd</li><li>• yn cyfoethogi'r amgylchedd gan ddefnyddio adnoddau penagored sy'n sbarduno fy chwilfrydedd</li></ul>

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy sgiliau archwilio'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sylwi ar siâp, cymesuredd a phatrwm yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig</li> <li>• chwarae â meintiau a rhifau</li> <li>• defnyddio iaith fathemategol syml wrth chwarae ac i bwrpas</li> <li>• trosglwyddo'r hyn rwy'n ei ddysgu i sefyllfaoedd newydd</li> <li>• datrys problemau a myfyrio ar yr hyn rwy'n ei ddysgu</li> <li>• datblygu gwydnwch a dyfalbarhad</li> <li>• datblygu fy nghysyniad o amser</li> <li>• sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl, lleoedd a phethau</li> <li>• defnyddio fy synhwyrâu i archwilio'r byd o'm cwmpas</li> <li>• dewis offer ac adnoddau priodol i ddysgu'n well.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn defnyddio'r tu allan fel lle i ddysgu</li> <li>• yn cefnogi ac yn datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol a gwyddonol mewn ffyrdd ystyrlon</li> <li>• yn gwerthfawrogi'r broses o ddysgu yn hytrach na'r canlyniad</li> <li>• yn fy nghefnogi wrth i mi ddysgu o fy nghamgymeriadau</li> <li>• yn cydnabod ac yn dathlu fy mhenderfyniad a fy ymdrech</li> <li>• yn fy ngalluogi i ddefnyddio adnoddau digidol sy'n fy helpu i ymchwilio a myfyrio ar yr hyn rwy'n ei ddysgu</li> <li>• yn modelu prosesau meddwl a datrys problemau</li> <li>• yn dilyn fy niddordebau</li> <li>• yn defnyddio cerddoriaeth a dawns fel sbardun i ddysgu</li> <li>• yn defnyddio adnoddau go iawn i ddod â straeon, rhigymau a cherddi yn fyw</li> <li>• yn fy helpu i ddefnyddio llyfrau ffeithiol ac adnoddau digidol priodol.</li> </ul>

## Datblygiad corfforol

Mae gan blant angen naturiol i symud, neu gael eu symud, ac i symud gwrthrychau a'u trin a'u trafod, yn aml dro ar ôl tro, fel rhan o'u datblygiad. Mae hyn yn golygu defnyddio sgiliau motor bras a manwl. Daw'r symudiadau motor hyn yn fwy **cywrain** a byddan nhw'n cydsymud yn fwy esmwyth gydag amser a chyfle. Mae ailadrodd ac amrywiaeth yn hollbwysig i ddatblygiad wrth i blant ddechrau archwilio eu galluoedd corfforol cynyddol.

Mae i weithgarwch corfforol lawer o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae symud yn gysylltiedig â gwybyddiaeth a dysgu, a gall cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyfoethogi ymdeimlad plant o berthyn a lles. Gall gefnogi lefelau uwch o ganolbwyntio, cymhelliant a chof, yn ogystal â helpu'r esgyrn a'r cyhyrau i ddatblygu'n iach. Oherwydd hyn, caiff sgiliau datblygiad corfforol eu cydblethu â'r pedwar llwybr datblygu arall, yn ogystal â bod yn llwybr datblygu ar wahân ynddo'i hun.

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• fynegi fy hun mewn gofodau bach a mawr</li> <li>• symud y tu mewn i wrthrychau ac o'u cwmpas, y tu mewn a'r tu allan</li> <li>• symud mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn helpu i ddatblygu fy sgiliau motor bras</li> <li>• datblygu fy sgiliau motor manwl mewn profiadau go iawn</li> <li>• profi fy ngalluoedd, herio fy hun yn gorfforol ac archwilio'r hyn y galla i ei wneud â fy nghorff</li> <li>• gallu dewis sut, pryd a ble i symud</li> <li>• bod yn chwilfrydig ynglŷn â'r ffordd y galla i ryngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gydsymud</li> <li>• symud yn ddiogel</li> <li>• cadw cydbwysedd</li> <li>• symud ar amrywiaeth o arwynebau</li> <li>• cydsymud fy nwylo a fy llygaid</li> <li>• taflu a dal gwrthrychau</li> <li>• mentro wrth chwarae'n gorfforol</li> <li>• trin a thrafod gwrthrychau llai ac archwilio eu priodweddau</li> <li>• cynllunio fy symudiadau a gwneud penderfyniadau amdany'n nhw</li> <li>• dyfalbarhau a datblygu fy ngwydnwch.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• brofiadau dilys bywyd go iawn yn y byd naturiol</li> <li>• amgylchedd dysgu sy'n cynnig cyfleoedd dyddiol i ddatblygu fy sgiliau motor bras a manwl</li> <li>• cyfleoedd i ddatblygu fy ngallu i gydsymud a chryfder craidd fy nghorff</li> <li>• cyfleoedd i deimlo llawenydd wrth wneud gweithgarwch corfforol</li> <li>• amgylchedd cynhwysol sy'n fy helpu i symud a bod yn egniol</li> <li>• oedolion cefnogol sy'n fy annog i fesur a rheoli risgiau a herio fy hun</li> <li>• cyfleoedd i brofi cerddoriaeth, dawns a gemau gan ddefnyddio delweddau, sain a fideo</li> <li>• cyfleoedd i archwilio cysyniadau, gan gynnwys maint, siâp, patrwm, rhythm a safle, yn fy symudiadau corfforol.</li> </ul>

## Lles

Mae'r oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y mae plant yn dod ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, byddan nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bawb.

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o les. Gall oedolion sy'n creu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol helpu plant i ddechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Gallan nhw hefyd helpu plant i ddechrau deall bod canlyniadau i'w gweithredoedd.

Gall plant sydd ag **ymlyniadau** a chydberthnasau cadarn feddu ar hunanhyder ac, felly, gallan nhw wneud dewisiadau'n well, bod yn fwy gwydn ac annibynnol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau pob dydd mewn ffordd gadarnhaol.

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• deimlo'n ddiogel</li> <li>• gwneud dewisiadau</li> <li>• dilyn fy niddordebau fy hun</li> <li>• dangos fy emosiynau</li> <li>• teimlo cysylltiad â phobl eraill</li> <li>• teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi</li> <li>• gweld fy hun a fy myd yn cael eu hadlewyrchu yn fy amgylchedd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ryngweithio ag eraill</li> <li>• cymryd fy nhro a rhannu</li> <li>• dangos yr hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi</li> <li>• bod yn garedig</li> <li>• bod yn ystyriol o bobl eraill</li> <li>• adnabod fy nheimladau</li> <li>• adnabod teimladau pobl eraill</li> <li>• rheoli fy ymatebion â chymorth</li> <li>• adnabod sut rwy'n debyg ac yn wahanol i bobl eraill</li> <li>• sylweddoli bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill yn arwain at ganlyniadau</li> <li>• dod yn annibynnol o ran fy hylendid personol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn parchu ac yn gwerthfawrogi fy ngweithgareddau chwarae</li> <li>• yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau wrth i mi chwarae</li> <li>• yn rhoi amser, lle a rhyddid i mi archwilio a darganfod</li> <li>• yn gwrando ar fy marn ac yn ymddiried yn fy newisiadau</li> <li>• yn fy helpu i ddod yn fwy annibynnol</li> <li>• yn fy helpu i reoli ansicrwydd a newid</li> <li>• yn adnabod ac yn dilysu fy nheimladau, er mwyn fy helpu i ddod o hyd i ffyrdd o fynegi fy emosiynau a dechrau eu rheoli</li> <li>• yn fy annog i chwarae rhan weithredol yn fy nysgu</li> <li>• yn gwrando, yn arsylwi ac yn sylwi ar fy nealltwriaeth sy'n datblygu</li> <li>• yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu fy anghenion</li> <li>• yn sicrhau bod yr amgylchedd yn fy adlewyrchu i a fy nheulu unigryw drwy ddewis adnoddau a chynnwys arddangosfeydd yn ofalus</li> <li>• yn parchu, yn gwerthfawrogi, yn deall ac yn cefnogi fy niwylliant, fy nhreftadaeth a fy nghredoau</li> <li>• yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu hunan-barch drwy greadigrwydd a chymryd rhan</li> <li>• yn datblygu fy nealltwriaeth o ffyrdd o gadw fy nghorff a fy meddwl yn iach.</li> </ul>



# Y pum llwybr datblygu: Cwestiynau myfyriol

## Ar gyfer ymarferwyr:

- Sut y bydda i'n gwybod a yw'r amgylchedd yn fy lleoliad yn cwrdd ag anghenion pob plentyn?
- I ba raddau rydw i'n cynnig amrywiaeth o brofiadau dilys sy'n briodol yn ddatblygiadol i'r plant?
- I ba raddau y mae'r gwaith o drefnu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn dechrau gydag anghenion ac ymagweddau'r plant yn fy lleoliad?
- I ba raddau rydw i'n ymateb i ac yn meithrin ddiddordebau arbennig a chwilfrydedd unigol y plant?
- I ba raddau rydw i'n cynnig cyfleoedd ystyrlon i'r plant gael profiad o'r Gymraeg bob dydd?

## Ar gyfer arweinwyr:

- I ba raddau rydw i'n sicrhau bod y llwybrau datblygu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu?
- I ba raddau rydw i'n cyfleu disgwyliadau uchel o ran y dysgu a'r addysgu mewn perthynas â'r llwybrau datblygu?
- I ba raddau rydw i'n helpu ymarferwyr i gyflwyno a datblygu'r Gymraeg?

# Ymarfer sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn

## Dod i adnabod y plentyn yn ein lleoliad

Mae blynyddoedd cynnar plentyn yn gymharol fyr ac yn arwyddocaol iawn i'w ddatblygiad cyffredinol. Bydd plentyn yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fywyd, wrth i'r **baldorddi** droi'n sgwrs ac wrth i symudiadau corfforol ddod yn fwyfwy cymhleth a soffistigedig. Mae'n bwysig rhoi gwerth ar y cyfnod hwn a meithrin natur chwareus a chwilfrydig plant. Gall y temtasiwn inni ruthro drwy sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau gael effaith niweidiol ar y cyfnodau dysgu nesaf. Ar bob cam datblygu, dylen ni ganolbwyntio ar yr anghenion presennol ac nid ar yr anghenion a ddaw i'r amlwg dros y flwyddyn neu'r blynyddoedd nesaf. Os rydyn ni'n dod i adnabod y plant yn ein lleoliad, eu hanghenion datblygu a'u diddordebau, byddwn ni'n fwy tebygol o feithrin mwynhad mewn dysgu ac ymagweddau cadarnhaol tuag ato.

Wrth i blant ymuno â'n lleoliad am y tro cyntaf, mae'n bosibl y byddan nhw'n profi disgwyliadau ac arferion newydd. I rai, rydyn ni'n gwybod y bydd y cyfnod pontio hwn yn esmwyth ac yn hamddenol, ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser ar eraill i ddod i drefn. Drwy ddefnyddio ein gwybodaeth am brofiadau blaenorol plant, yr hyn y maen nhw'n ei hoffi, yr hyn nad ydyn nhw'n ei hoffi a'u diddordebau, byddwn ni mewn sefyllfa well i hwyluso'r cyfnod hwn.

Bydd canolbwyntio ar ddod i adnabod plant yn helpu i ffurfio darlun o bob plentyn unigol. Rydyn ni'n gwneud hyn am ein bod yn rhoi gwerth ar y sgiliau a'r wybodaeth unigryw sydd gan bob plentyn yn ein lleoliad. Dylai meithrin ein cydberthynas â'r plentyn fod yn brofiad pleruser i bawb.



Dylen ni sicrhau ein bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ddeall rôl arsylwi a'r ffordd y mae'n cefnogi trefniadau asesu. Dylen ni wyllo plant, gwrando arnyn nhw a myfyrio ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud a'i ddweud. Mae'r plant yn cael eu hasesu drwy i ni arsylwi'r hyn y gallan nhw eu wneud, a dadansoddi'r arsylwadau hyn yn fanwl.


## Arsylwi plant

Mae arsylwi'n rhan allweddol o'n hymarfer. Dylai fod yn seiliedig ar ein gwybodaeth drylwyr ym maes datblygiad plant, a dylai'r plentyn fod wrth wraidd y broses.

Mae arsylwi'n ein helpu i wybod beth sy'n cymhell plant bach, yn ennyn eu diddordeb ac yn hoelio eu sylw. Mae'n ein helpu i ddeall i ba raddau y maen nhw'n cymryd rhan, beth yw eu cyflyrau emosiynol, pwy yw eu ffrindiau, a pha sgiliau a chymwysedau sydd ganddyn nhw. Mae arsylwi effeithiol yn ein galluogi i ddadansoddi'r hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed, ac ymateb mewn ffyrdd a fydd yn helpu'r plant i wneud cynnydd. Dylen ni ddefnyddio'r arsylwadau hyn i lywio gwaith cynllunio'r presennol a'r dyfodol yn ein lleoliad. Gall ein harsylwadau fod yn benodol ac wedi'u cynllunio; gallan nhw gael eu hamseru dros gyfnod neu ddigwydd yn ddigymell pan fyddwn ni'n sylwi ar ryw beth newydd neu arwyddocaol. Bydd defnyddio amrywiaeth o dechnegau arsylwi'n sicrhau ein bod yn meithrin dealltwriaeth fanwl o bob plentyn.

Mae arsylwadau'n ein helpu i wybod beth yw diddordebau arbennig plant. Gall manteisio i'r eithaf ar y diddordebau arbennig hyn helpu i ymestyn y dysgu, yn enwedig wrth gynllunio'r profiadau a'r amgylcheddau ar gyfer archwilio cysyniadau.

Dylen ni arsylwi plant gydol y dydd, y tu mewn a'r tu allan, yn chwarae ar eu pen eu hunain a gyda'i gilydd. Bydd y cyd-destunau hyn yn ein helpu i adnabod amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth wrth i'r plant gymryd rhan mewn profiadau gwahanol. Fel rhan o'r broses hon, dylen ni ystyried pryd y dylid rhyngweithio â'r plentyn wrth iddo ddysgu, a'r ffordd orau o wneud hynny. Dylen ni sicrhau ein bod yn cofnodi ein harsylwadau mewn ffordd gryno a hawdd i'w rheoli, sy'n gweithio'n dda i'n lleoliad ni. Dylai ein harsylwadau fod yn sbardun ar gyfer ein gwaith o gynllunio profiadau ac amgylcheddau dysgu yn y dyfodol.



## Sgemâu

Yn ein hymarfer, bydd adegau pan fyddwn ni'n gofyn pam y mae plant bach yn gwneud yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Efallai y byddwn ni'n gweld plentyn yn gwneud rhywbeth dro ar ôl tro, er enghraifft troi cynwysyddion drosodd a gwagio eu cynnwys ar y llawr, gwneud cylchoedd yn y tywod neu'r paent, lapio eu hunain neu wrthrychau mewn defnydd. Mae'r gweithredoedd ailadroddus hyn yn cefnogi datblygiad hollbwysig yr ymennydd ac fe'u gelwir yn sgemâu. Mae'n bosibl bod y gweithredoedd hyn yn ymddangos ychydig yn rhyfedd, neu hyd yn oed yn dipyn o niwsans weithiau, ond i blentyn mae hwn yn gam angenrheidiol i feithrin ei ddealltwriaeth o'r byd ac ohono ef ei hun. Gall sgemâu helpu plant i fynegi syniadau a meddyliau sy'n datblygu drwy chwarae archwiliadol. Mae gweithredoedd ailadroddus chwarae sgematig yn galluogi plant i greu ystyr yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

Mae gan rai plant ysfa gref iawn i ailadrodd gweithredoedd fel gosod gwrthrychau mewn rhes, symud pethau o le i le, llenwi a gwagio cynwysyddion, gorchuddio pethau neu eu taflu. Gall sgemâu newid dros amser, er enghraifft gall plentyn arbrofi â sgema penodol megis gorchuddio ei hun â blancedi cyn symud ymlaen i orchuddio gwrthrychau o feintiau amrywiol â defnydd, papur neu baent. Wrth i blant integreiddio pethau newydd y maen nhw'n eu dysgu mewn sgemâu sy'n bodoli eisoes, maen nhw'n addasu eu ffyrdd presennol o feddwl er mwyn ymgorffori'r profiadau newydd hyn.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl y bydd rhai plant yn arddangos mwy nag un sgema ac efallai na fydd plant eraill yn arddangos unrhyw sgemâu o gwbl.

Gall sgemâu fod yn allweddol wrth osod y sylfeini ar gyfer dealltwriaeth fathemategol a gwyddonol yn y dyfodol; maen nhw'n cynnig cyfleoedd corfforol i ddeall cysyniadau iaith yn llawn ac yn annog plant



i ddatrys problemau a meddwl yn greadigol. Mae ysfâu naturiol y plant i archwilio a darganfod pam mae pethau'n digwydd yn atgyfnerthu eu **llwybrau niwral**, gan ei gwneud yn haws i blant wneud cysylltiadau wrth ddysgu, profi eu **ffyrdd newydd o feddwl**, a gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Gall methu â chynnig cyfleoedd i blant fanteisio ar eu sgemâu a'u harchwilio'n llawn fod yn niweidiol i'w hymdeimlad o **alluedd**.

## Mathau o sgemâu

Mae llawer o fathau gwahanol o sgemâu, ac mae'r mathau mwyaf cyffredin a welir wrth i blant chwarae ac archwilio wedi'u rhestru isod.

Gallwn ni weld bod llawer o'r patrymau ymddygiad ailadroddus hyn yn profi cysyniadau mathemategol a gwyddonol wrth i blant ddefnyddio gwrthrychau a defnyddiau wrth chwarae. Gall plant ddangos diddordeb arbennig mewn un neu rai o'r sgemâu canlynol, neu ym mhob un ohonyn nhw.

- **Trywydd** – Mae hyn yn golygu archwilio uchder, cyflymder, pellter a'r ffordd y mae pethau'n symud (yn llorweddol, yn fertigol ac yn groeslinol) a'r ffordd y gall plant effeithio ar y symudiad hwnnw.
- **Cylchdro** – Mae hyn yn golygu archwilio siâp, gofod, ymwybyddiaeth ofodol, symudiad a chylchdro, gan gynnwys sut mae plant yn troi eu hunain o gwmpas, a sut mae gwrthrychau'n troelli ac yn adlamu.
- **Amgáu** – Mae hyn yn golygu archwilio priodweddau maint, siâp, mesuriadau a chyfaint gofodau drwy greu a/neu ddefnyddio gofodau caeedig.
- **Gorchuddio** – Mae hyn yn golygu archwilio gofod, cyfaint, cynhwysedd, pwysau, ymwybyddiaeth ofodol a maint drwy orchuddio neu lapio gwrthrychau, neu nhw eu hunain, yn llwyr. Gall plant hefyd lenwi bagiau, basgedi neu gynnwysyddion.





- **Cludo** – Mae hyn yn golygu archwilio meintiau drwy symud gwrthrychau, casgliad o wrthrychau neu nhw eu hunain o un lle i'r llall.
- **Cysylltu a datgysylltu** – Mae hyn yn golygu archwilio maint, siâp ac amcangyfrif drwy uno pethau a'u gwahanu.
- **Gosod** – Mae hyn yn golygu archwilio trefn, dilyniant a dosbarthiad drwy osod a threfnu gwrthrychau mewn patrymau neu resi.
- **Gogwydd** – Mae hyn yn golygu archwilio cydbwysedd, uchder, lled a hyd drwy edrych ar bethau o onglau gwahanol, naill ai eu hunain neu gan ddefnyddio gwrthrychau.
- **Craidd a rheiddiol** – Mae hyn yn cyfuno symudiadau syth sgema trywydd a symudiadau cylchol sgema cylchdro. Daw hyn i'r amlwg pan fydd plant yn gwneud marciau ac yn cyfuno sgemâu wrth chwarae.

Gall pwysigrwydd y gwahanol sgemâu i'r plant newid dros amser, wrth iddyn nhw archwilio sgemâu unigol ac yna eu cyfuno i'w defnyddio mewn gweithgareddau chwarae mwy cymhleth. Bydd ein harsylwadau ar chwarae yn aml yn dangos plant yn defnyddio parau a grwpiau o sgemâu sy'n ffurfio rhwydwaith o glystyrau, gan grwpio ac ail-grwpio wrth i'w diddordebau a'r ffordd y maen nhw'n dysgu ddatblygu. Mae rhyngweithio a phrofiadau cadarnhaol a phwrpasol yn effeithio ar ddatblygiad a chyd-drefniant clystyrau o sgemâu; mae hyn yn golygu bod angen inni ystyried a ddylen ni ymyrryd â gweithgareddau chwarae plant i ymestyn eu ffyrdd presennol o feddwl ac, os felly, sut. Wrth i blant ddatblygu, bydd eu clystyrau o sgemâu yn dechrau gweithio gyda'i gilydd, gan alluogi'r plentyn i feddwl a gweithredu'n fwy effeithlon, gan ddangos mwy o **ddeheurwydd** a dealltwriaeth o gysyniadau ac iaith. Ar y pwynt hwn, gall fod yn anoddach inni adnabod sgemâu unigol, ond dylai arsylwadau rheolaidd lywio ymarfer a darpariaeth.

# Sgemâu: Cwestiynau myfyriol



## Ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr:

- Pa mor hyderus ydw i o ran adnabod a deall sgemâu a'u cysylltiad â'r dysgu?
- I ba raddau rydw i'n rhannu fy arsylwadau'n dda â rhieni a gofalwyr? A yw'r broses yn un ddwyffordd?
- I ba raddau rydw i'n defnyddio'r hyn rwy'n ei weld wrth arsylwi plant yn chwarae i adnabod dysgu sgematig a chynllunio ar ei gyfer?
- Sut ydw i'n sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau penagored ar gael, y tu mewn a'r tu allan, i gefnogi dysgu sgematig?
- Sut ydw i'n sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ymgymryd â lefelau dwfn o chwarae sgematig?
- Sut ydw i'n defnyddio fy ngwybodaeth am sgemâu i gefnogi plentyn yn ystod y broses o bontio i leoliad newydd?

## Asesu plant


Mae i asesu dair prif rôl:

- helpu'r plentyn unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- adnabod, nodi a myfyrio ar gynnydd unigolion
- deall cynnydd grŵp dros amser er mwyn helpu'r lleoliad i fyfyrrio ar ei ymarfer.

Nod asesu yw darganfod yr hyn y gall plant ei wneud, a dylid ei wneud drwy ddadansoddi ein harsylwadau'n fanwl. Mae asesu'n hanfodol er mwyn galluogi pob plentyn unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny. Mae'n ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol y plentyn ar draws y pum llwybr datblygu. Mae'n ein galluogi i ddeall ym mha ffyrdd y mae'n well gan blant ddysgu a'r ffyrdd gorau o'u cymell. Hefyd, gall asesu effeithiol ein helpu i adnabod y plant hynny y gall fod angen cymorth neu her ychwanegol arnyn nhw i'w helpu i wireddu eu potensial.

Mae'n bwysig ein bod yn deall nad proses linol yw dysgu, a bod plant gwahanol yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Rhaid inni gydnabod hyn a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau a neidiau ar hyd taith ddysgu plentyn.

Nid rhestr wirio na digwyddiad untro a ddylai asesu fod. Dylai fod yn broses barhaus sy'n ddefnyddiol, sy'n hawdd i'w reoli ac yn bwrpasol – i ni ac i gynnydd plant. Dylai fod yn amhosibl gwahaniaethu rhwng asesu a dysgu ac addysgu. Gall asesu ein helpu i gynnig profiadau ac amgylchedd sy'n helpu'r plentyn i ddysgu drwy gyd-destunau dilys bywyd go iawn.





# Ymarfer sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn: Cwestiynau myfyriol

## Ar gyfer ymarferwyr:

- I ba raddau rydw i'n defnyddio dadansoddiadau o arsylwadau yn dda i lywio gwaith cynllunio o ddydd i ddydd?
- I ba raddau rydw i'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau arsylwi?
- Sut ydw i'n sicrhau cydbwysedd wrth i mi arsylwi ar draws y pum llwybr datblygu?
- Sut ydw i'n sicrhau bod arsylwadau'n canolbwyntio ar amrywiaeth o agweddau?
- Sut ydw i'n sicrhau bod digon o amser yn cael ei dreulio yn arsylwi pob plentyn, yn gwranddo arno ac yn ei ddeall, er mwyn gweld ei fod yn gwneud cynnydd da?
- Sut ydw i'n sicrhau nad wyf yn torri ar draws proses ddysgu'r plentyn wrth ryngweithio ag ef?
- Sut ydw i'n sicrhau bod cyfraniad y rhieni'n cael ei werthfawrogi wrth ddod i adnabod y plentyn?
- Sut ydw i'n gwranddo ar y plentyn er mwyn cydweithio yn y broses ddysgu?

## Ar gyfer arweinwyr:

- I ba raddau rydw i'n cefnogi ac yn cynnal diwylliant dysgu cadarn sy'n helpu ac yn herio ymarferwyr er mwyn galluogi plant i wneud cynnydd priodol?
- Sut ydw i'n defnyddio arsylwadau ac asesiadau fy nhîm i lywio gwaith cynllunio strategol?
- Sut ydw i'n sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar ystod lawn o agweddau yn eu harsylwadau?
- I ba raddau rydw i'n adnabod anghenion dysgu proffesiynol yr ymarferwyr yn fy lleoliad?
- Sut ydw i'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael amser i arsylwi pob plentyn yn rheolaidd?
- I ba raddau rydw i'n myfyrio ar ansawdd a defnyddioldeb yr arsylwadau a'r asesiadau er mwyn datblygu ymarfer ac addysgeg fy lleoliad?

# Cynhwysiant

Mae ymarfer cynhwysol yn cydnabod, yn parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth plant a theuluoedd, ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un driniaeth, cynrychiolaeth, cyfleoedd a pharch. Mae ymarfer cynhwysol yn parchu profiadau unigryw plant a'u teuluoedd, ac yn ymateb iddyn nhw, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth priodol i gymryd rhan yn llawn yn y broses ddysgu.

Yn ystod eu cyfnod gyda ni, mae'n hanfodol bod plant yn teimlo'n hyderus o ran pwys ydyn nhw. Gall cynnig ymarfer cynhwysol yn ein dull addysgegol sicrhau bod gan bob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn, ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynrychioli yn ein lleoliad, a'i fod yn cael cyfle cyfartal i ffynnu.

Rydyn ni'n gwybod bod yr amgylchedd a'r oedolion o'u cwmpas yn dylanwadu ar blant, a'u bod yn dysgu o bopeth y maen nhw'n ei weld, ei glywed a'i wneud. Mae cyfrifoldeb arnon ni i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plant drwy greu amgylchedd **hygyrch** a chynhwysol yn ein lleoliad, sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu pawb.

Dylai ein hamgylchedd fod yn:

- drefnus er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb
- cynnwys cynrychiolaeth amrywiol a dilys o fewn adnoddau, delweddau a deunydd darllen (o ran **rhywedd**, gallu, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, ac ati)
- gwneud addasiadau priodol er mwyn dileu rhwystrau sy'n atal plant rhag cymryd rhan
- cynnig adnoddau penagored sy'n adlewyrchu amrywiaeth ac nad ydyn nhw'n rhyw-benodol.





## Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Mae 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' yn cyfeirio at ddigwyddiadau trawmatig y gall plentyn eu hwynebu cyn iddo gyrraedd 18 oed. Gallai'r rhain gynnwys: cam-drin, esgeulustod, profedigaeth, rhieni'n gwahanu, rhiant yn y carchar, a dod i gysylltiad ag achosion o gamddefnyddio sylweddau neu drais domestig. Mae ymchwil yn awgrymu y gall profiadau niweidiol a thrawma gael effaith gydol oes ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles. Gall profiadau niweidiol gael effaith wahanol ar bob teulu a phlentyn. Yn gyffredinol, gall profiadau niweidiol a thrawma olygu y bydd plant yn wynebu mwy o straen, a gall hyn fod yn anodd iddyn nhw ymdopi ag ef.

Gall teuluoedd brofi cyfnodau byr o brofiadau niweidiol a thrawma, neu mae'n bosibl y bydd eraill yn wynebu cyfnodau hirach a mwy parhaus. O dan amgylchiadau o'r fath, gall teuluoedd ei chael hi'n anodd rhoi gofal ymatebol ac amgylchedd meithringar i'w plant. Gall dod i gysylltiad â phrofiadau niweidiol a thrawma, yn y tymor byr neu'r tymor hirach, gael effaith niweidiol ar allu plant i ddysgu a datblygu.

Mae cyfrifoldeb arnon ni i gadw plant yn ddiogel rhag niwed. Mae ymchwil yn awgrymu y gall lleoliadau o ansawdd da leihau effaith profiadau niweidiol ar blant. Gallwn ni helpu plant i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu eu gwydnwch, drwy gydberthnasau cyson a chadarnhaol mewn amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol.

Fel rhan o'n hymarfer, dylen ni fyfyrion ar ba mor dda yw ein perthynas â theuluoedd. Bydd gan leoliadau sy'n arddangos yr arferion gorau bolisi 'drws agored' er mwyn i bob teulu a gofalwr deimlo'n gyfforddus yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol a all effeithio ar y plentyn. Mae yr un mor bwysig ein bod yn gallu adnabod graddau ein gwybodaeth a'n cyfrifoldebau ein hunain, a'n bod yn gwybod pryd i geisio cyngor pellach neu gyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth eraill.

# Cynhwysiant: Cwestiynau myfyriol



## Ar gyfer ymarferwyr:

- Ydy'r arferion a'r adnoddau yn fy lleoliad yn atgyfnerthu neu'n herio ffyrdd ystrydebol o feddwl? Sut ydw i'n gwybod hyn?
- I ba raddau y mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn cynrychioli'r amrywiaeth o gymunedau sy'n byw yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a hynny mewn ffordd ddilys?
- I ba raddau y mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn adlewyrchu amrywiaeth o gefndiroedd a strwythurau teuluol?

## Ar gyfer arweinwyr:

- Ydw i wedi ystyried effaith **rhagfarn ddiarwybod** ar ymarfer a darpariaeth? Oes angen i fy ymarferwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol?
- Pa mor aml rydw i'n gwerthuso ein polisi cyfle cyfartal? Sut ydw i'n sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gynhwysfawr?
- I ba raddau rydw i'n rhoi dull lleoliad cyfan ar waith ar gyfer cefnogi plant a all fod wedi wynebu profiadau niweidiol a thrawma?
- I ba raddau rydw i'n adnabod bod angen i staff ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol, ac yn ei gefnogi?
- I ba raddau y mae ymarferwyr yn fy lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu?
- I ba raddau rydw i'n rhannu gwybodaeth berthnasol â'r staff am blant a'u teuluoedd?

# Cyfnodau pontio

Cyfnodau o newidiadau sy'n digwydd ym mywyd plentyn ac sy'n golygu bod angen iddo addasu i amgylchiadau newydd yw cyfnodau pontio. Gall hyn gynnwys newidiadau mawr, fel profedigaeth, ysgariad, symud cartref neu'r broses o bontio o'r cartref i'r lleoliad. Y cyfnodau pontio llai, sy'n arwyddocaol o hyd, yw'r rhai sy'n digwydd o fewn ein lleoliad, fel symud o un ystafell i'r llall neu o un gweithgaredd i'r llall. Gall symud o sefyllfaoedd a oedd yn gyfforddus ac yn gyfarwydd o'r blaen fod yn fwy heriol i rai plant, a bydd angen cymorth arnyn nhw i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ymdopi.

Mae tri prif fath o gyfnod pontio.

- **Llorweddol** – Newidiadau lluosog sy'n digwydd gydol y dydd, wrth symud o'r cartref i'r lleoliad, o gyfnodau chwarae i amseroedd bwyd, o'r tu allan i'r tu mewn.
- **Fertigol** – Newidiadau mawr sy'n digwydd mewn teuluoedd, a all olygu bod angen iddyn nhw addasu'n gymdeithasol ac yn ddiwylliannol i reolau, arferion a disgwyliadau newydd, er enghraifft wrth symud o'r cartref i'r lleoliad neu o'r lleoliad i'r ysgol gynradd.
- **Lluosog** – Gall rhai plant fynd drwy gyfnodau pontio fwy na dwy neu dair gwaith mewn diwrnod neu wythnos benodol. Gall y newidiadau lluosog hyn ddigwydd, er enghraifft, wrth symud o'r cartref i'r clwb brecwast, o'r clwb brecwast i'r feithrinfa, o'r feithrinfa i dŷ taid a nain/tad-cu a mam-gu, ac o dŷ taid a nain/tad-cu a mam-gu i'r cartref.



Gall pa mor dda y byddwn ni'n rheoli cyfnodau pontio bennu a fydd y profiad yn un cadarnhaol neu negyddol i'r plentyn. Gall diffyg cymorth priodol drwy'r broses bontio arwain at effeithiau hirdymor negyddol ar blant, er enghraifft diffyg hunan-barch a hyder, anallu i ffurfio cydberthnasau ystyrlon, a llai o allu i ymdopi â newid yn y tymor byr a'r tymor hirach. Mae sicrhau lles plant yn rhan annatod o'r broses bontio. Gall ymdrin â chyfnodau pontio mewn ffordd sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn wella gallu plant i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi mewn unrhyw sefyllfa newydd.

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried anghenion unigol y plentyn wrth gynllunio cyfnodau pontio. Mae pob plentyn yn wahanol, a bydd angen mwy o gymorth ar rai nag eraill. Dylen ni weithio mewn partneriaethau â rhieni a gofalwyr i ddeall anghenion unigol pob plentyn a chydweithio i sicrhau bod cyfnodau pontio mor ddidrafferth â phosibl.

Mae meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth rhwng y cartref a'n lleoliad, lle rydyn ni'n rhannu'r un amcanion ar gyfer dysgu a datblygu, yn meithrin lles plant a'u hymdeimlad o berthyn. Mae cydnabod mai rhieni a gofalwyr yw addysgwyr cyntaf plentyn a rhoi gwerth ar yr hyn y maen nhw'n ei wybod am eu plentyn yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth o'r cartref i'r lleoliad, ond hefyd er mwyn cynnal partneriaethau effeithiol parhaus. Bydd lleoliadau sy'n meithrin deialog agored â rhieni a gofalwyr, ac sy'n gwrandao ac yn arsylwi plant, mewn sefyllfa well i gynnis profiad pontio cadarnhaol.



# Cyfnodau pontio: Cwestiynau myfyriol



## Ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr:

- I ba raddau rydw i'n defnyddio'r wybodaeth a rannwyd â mi gan rieni a gofalwyr i gefnogi cyfnodau pontio effeithiol?
- Sut ydw i'n sicrhau bod partneriaethau da yn cael eu sefydlu a'u datblygu ag ysgolion a lleoliadau eraill?
- Sut ydw i'n sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gynrychioli yn y broses bontio?

# Arweinyddiaeth

Pan fyddwn ni'n siarad am arweinyddiaeth yn ein lleoliad, byddwn ni'n cyfeirio at bob aelod o staff mewn rôl reoli, arwain neu oruchwylio yn ogystal â'r arweinydd unigol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y lleoliad.

Dylai arweinwyr effeithiol fod yn fodolau rôl sy'n ysbrydoli eraill. Dylen nhw fodol ymarfer, gwybodaeth a gofal o safon uchel, a rhoi gwerth ar sgiliau a gwybodaeth yr ymarferwyr yn eu lleoliadau. Dylen nhw sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a gweithio gyda nhw i greu gweledigaeth gyffredin ag ethos Cymraeg clir y mae pawb yn ei deall. Dylen nhw fod yn ymrwymedig i ddysgu proffesiynol parhaus, ar eu cyfer nhw eu hunain ac ar gyfer ymarferwyr eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad. Dylen nhw annog ymarferwyr i fyfrio a monitro ac asesu eu hymarfer yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwella.

Dylai arweinwyr effeithiol feddu ar sgiliau cyfathrebu da, gan sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gwybod yn union beth sy'n digwydd, a dylen nhw ddirprwyo tasgau lle bo hynny'n briodol. Dylen nhw hefyd fodol sgiliau gwrandao da, a bod yn barod i ystyried syniadau ac awgrymiadau gan aelodau o'r tîm. Dylai arweinwyr effeithiol groesawu cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys rhieni, gofalmwr ac eraill yn y gymuned, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau lle bo hynny'n briodol.

Dylai arweinwyr effeithiol wneud defnydd da o'r broses hunanwerthuso, i ystyried y ffordd orau o gynnal a gwella eu lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig y profiad gorau i blant bach. Dylid cynnwys pob partner perthnasol yn y broses hon er mwyn sicrhau y caiff ei safbwyntiau eu clywed.



# Arweinyddiaeth: Cwestiynau myfyriol



## Ar gyfer arweinwyr:

- I ba raddau rydw i'n cynnwys partneriaid yn y broses o greu, datblygu a gwireddu gweledigaeth fy lleoliad?
- I ba raddau rydw i'n gwerthuso'r ffordd y caiff y weledigaeth hon ei rhoi ar waith?
- I ba raddau rydw i'n adnabod fy anghenion dysgu proffesiynol fy hun yn ogystal â rhai'r ymarferwyr yn fy lleoliad?
- I ba raddau rydw i'n gwerthuso effaith dysgu proffesiynol?
- I ba raddau rydw i'n adnabod yr angen am newid a sut ydw i'n sicrhau bod y newid hwnnw'n cael ei wneud yn llwyddiannus?
- Pa mor llwyddiannus rydw i wrth gynnwys yr holl bartneriaid perthnasol yn y broses hunanwerthuso?
- I ba raddau rydw i'n gwerthuso ansawdd yn dda?

# Geirfa

Cymraeg	Saesneg	Diffiniad
Addysgeg	Pedagogy	Y dull neu'r ymarfer addysgu.
Amgylchedd dysgu a ffefrir	Preferred learning environment	Ardal yn y lleoliad lle bydd plentyn yn dewis treulio'r rhan fwyaf o'i amser.
Asesu crynodol	Summative assessment	Asesu cynnydd plentyn ar ddiwedd cyfnod neu uned hyfforddi yn erbyn meini prawf neu safonau penodol.
Baldorddi	Babbling	Seiniau a geiriau aneglur neu annealladwy a wneir gan blentyn ifanc. Ymdrechion cynnar ar gyfathrebu, ffurfio geiriau a siarad.
Cydberthnasau meithringar	Nurturing relationships	Perthnasau cadarnhaol, gofalgar sy'n helpu plentyn i dyfu a datblygu'n hapus ac iach.
Cyd-destunau ystyrion	Meaningful contexts	Cyd-destun dilys, bywyd go iawn sy'n berthnasol i brofiad plentyn a fydd yn gyfle iddo archwilio a chymhwyso cysyniad, a rhoi sgiliau ar waith yn ymarferol.
Cyd-feddwl parhaus	Sustained shared thinking	Oedolion a phlant yn cydweithio i ddatrys problem, egluro cysyniad neu werthuso gweithgaredd. Mae hyn fel arfer ar ffurf sgwrs gyda'r oedolyn a'r plentyn yn cyfrannu syniadau er mwyn dod i gasgliadau posibl gyda'i gilydd.
Cyfleoedd dysgu digymell	Teachable moments	Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maen nhw'n rhoi cyd-destun ystyrion i oedolion gyflwyno neu ymhelaethu ar rywbeth sy'n ennyn chwilfrydedd y plentyn.
Cymhwysedd strategol	Strategic competence	Gallu cynyddol plentyn i ddefnyddio strategaethau i ffurfio a datrys problemau mathemategol.

Cymraeg	Saesneg	Diffiniad
Cymhwysu	Apply	I roi rhywbeth (er enghraifft sgil neu fedr) ar waith at ddiben ymarferol.
Cynefin	<i>Cynefin</i>	Y man lle rydyn ni'n teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r tirlun o'n cwmpas yn gyfarwydd, ac rydyn ni'n cael tawelwch meddwl o adnabod y golygfeydd a'r seiniau. Y man hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi llywio'r gymuned sy'n byw yno, ac sy'n parhau i wneud hynny.
Cynrychioli drwy symbolau	Symbolic representation	Y gallu i gyfleu syniadau drwy ddefnyddio geiriau, seiniau a gwrthrychau wrth chwarae.
Cywrain	Refined	Yn fwy medrus a manwl gywir.
Chwarae sgarmes	Rough and tumble	Chwarae egniol sy'n cynnwys elfen o wrthdaro (er enghraifft esgus ymladd a rhedeg ar ôl ei gilydd). Mae'r math yma o chwarae yn gyfle i blant fentro, cymryd risg, datrys gwrthdaro, cryfhau'n gorfforol a chynyddu gwydnwch.
Damcaniaethau sy'n dod i'r amlwg	Emerging theories	Y ffyrdd y mae plant yn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas, drwy ddefnyddio eu profiadau personol a chymdeithasol.
Datblygu cysyniadau	Concept development	Proses sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith, sy'n helpu dysgwyr i ddeall cyfeiriad, lleoliad, safle, rhif, nifer, dilyniant, priodoleddau, dimensiwn, maint, a phethau sy'n debyg ac yn wahanol.
Datblygiad gwybyddol	Cognitive development	Prosesau deallusol, dealltwriaeth a gwybodaeth plentyn a ddatblygir yn raddol trwy feddwl, profiad a'r synhwyrâu.
Dehurwydd	Dexterity	Medrusrwydd, y gallu i gyflawni gweithgaredd corfforol i safon uchel. Yn aml yn cyfeirio at y gallu i ddefnyddio'r dwylo.

Cymraeg	Saesneg	Diffiniad
Diddordebau arbennig	Fascinations	Pethau sy'n ennyn brwdfrydedd neu bleser ymhlith plant.
Ffyrdd newydd o feddwl	Emergent thinking	Y broses lle mae plant yn datblygu damcaniaethau a syniadau drwy archwilio.
Galluedd	Agency	Gallu plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau i ddylanwadu ar ddigwyddiadau ac effeithio ar eu byd eu hunain.
Gweithrediad motor	Motor function	Y gallu i reoli symudiadau ac ystumiau'r corff.
Gwydnwch	Resilience	Y gallu i ymdopi, dysgu a ffynnu yn wyneb newid, her neu helbulon.
Hanfod	Essence	Syniad, rhinwedd neu egwyddor sy'n rhan bwysig neu sylfaenol o rywbeth.
Hunaneffeithiolrwydd	Self-efficacy	Y gred ein bod ni â'r gallu i gwblhau a chyflawni nod penodol, a'r gallu i reoli nodweddion personol, hynny yw ein hymddygiad, ein hemosiynau a'n hysgogiad.
Hunanreoli	Self-regulation	Un o sgiliau sylfaenol plentyndod cynnar. Wrth i blant dyfu a chael eu cefnogi gan oedolion, maen nhw'n dysgu sut i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiadau.
Hunanymwbybodol	Self-aware	Yn ymwybodol o'i hunaniaeth fel unigolyn annibynnol, hynny yw o'i weithredoedd, o'i deimladau, ac ati.
Hygyrch	Accessible	Hawdd mynd ato, o fewn cyrraedd hwylus, agored i bawb.
Llawyn cyfathrebu	Communication rich	Mae amgylchedd llawn cyfathrebu wedi'i gynllunio mewn ffordd feddylgar i feithrin sgiliau siarad a gwranddo plant, eu lles emosïynol, a'u lefelau ymgysylltu corfforol a chyffredinol.

Cymraeg	Saesneg	Diffiniad
Llwybrau niwral	Neural pathways	Cyfres o niwronau cysylltiedig sy'n anfon signalau o un rhan o'r ymennydd i ran arall. Mae plant yn datblygu cysylltiadau drwy brofiadau a rhyngweithio beunyddiol.
Mireinio	Refine	Y broses o wella rhywbeth.
Rhagfarn ddiarwybod	Unconscious bias	Rhagfarn anfwriadol neu farn ddi-sail o blaid neu yn erbyn un peth, person neu grŵp o gymharu ag un arall, mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn annheg fel arfer.
Rhywedd	Gender	Y cyflwr o fod yn wryw neu fenyw o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol.
Sail resymegol	Rationale	Y rhesymau neu'r bwriad sy'n sail i weithredoedd neu egwyddorion penodol.
Sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben	Skills integral to the four purposes	Y sgiliau allweddol y bydd angen i bob plentyn eu meithrin ac sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm, sef: <ul style="list-style-type: none"> <li>• creadigrwydd ac arloesedd</li> <li>• meddwl yn feirniadol a datrys problemau</li> <li>• effeithiolrwydd personol</li> <li>• cynllunio a threfnu.</li> </ul>
Ymlyniadau	Attachments	Y cysylltiadau emosiynol sydd gan blentyn ifanc â'i rieni a'i ofalwyr blynyddoedd cynnar, sy'n sail bwysig i'w wydwnch a'i les.

